# IEUAN TEW

**Enw:** Ieuan Tew
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Eisteddfod
**Awdur:** Ray Looker

Yr oedd dau fardd yn dwyn yr enw, sef (1) IEUAN TEW BRYDYDD HEN, *fl.* c. 1400-40; brodor o Gydweli yn Sir Gaerfyrddin, a (2) IEUAN TEW BRYDYDD IEUANC, brodor o Arwystli yn Sir Drefaldwyn *fl.* c. 1560-90, disgybl disgyblaidd cerdd dafod eisteddfod Caerwys yn 1568 - Pen. MSS. 121 (215), 132 (61) - dywedir iddo gael ei gladdu yn Llanidloes.

Cadwyd llawer o farddoniaeth y ddau mewn llawysgrifau, ond anodd yn aml yw gwahaniaethu rhwng eiddo'r naill a'r llall. Ymhlith gwaith yr hynaf ceir cywyddau ymryson i Mastr Harri; canodd yr ieuaf gywyddau ymryson i Bedo Hafesb a chymerth ran hefyd gyda'r tri bardd, Siôn Phylip, Wiliam Ll n, a Hywel Ceiriog, yn yr ymryson gyda Wiliam Cynwal a Huw Ll n.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


*Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898–1910)

*Llawysgrif Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 1

*Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 1, 2, 5

*Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 129, 200, 206, 242, 243, 244, 454, 467

*Llawysgrif Esgair yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* (N.L.W.) 43

*Llawysgrif Gwysaney yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 25

*NLW MSS* 16, 253, 552. 560, 566, 643, 644, 675, 719, 832, 834, 1024, 1246, 1247, 1559, 2026, 2691, 3487, 4710, 5265, 5269, 5272, 5273, 6146, 6496, 6499, 6511, 6681, 10893, 11816, 13061, 13062, 13063, 13064, 13070, 13071, 13079, 13167, 13180

*Llawysgrif Sotheby yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* C. 3

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, xi, 243

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733280


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu